# Dadorchuddio Patagonia: Teimlo hiraeth am y tro cyntaf gan Nans Rowlands

## Y Cymro, Mawrth 17, 2001

Gallech feddwl b'aswn i wedi blino ar deithio ar ôl gwibio o gwmpas yng nghwmni pedwar o ffrindiau o Gorwen yn ystod mis Ionawr – aros ym Mhorth Madryn, i fyny i'r Andes mewn jîp ac ymweld â Dyffryn y Merthyron a sefyll wrth y bedd; gweld man llofruddio Llwyd Ap Iwan yn Nant y Pysgod ac ymlaen trwy Drevelin a Chwm Hyfryd nes cyrraedd Futaleufú yn Chile.

Na, ar ôl ffarwelio â'r ffrindiau a phrofi hiraeth am y tro cyntaf mewn deng mis, roedd y traed yn cosi eto. Ar y 12fed o Chwefror dyma hedfan o Drelew i Bariloche. Ar ôl osgoi'r gwenyn o yrrwyr tacsi cefais hyd i westy braf am noson.

Yn anffodus, roedd y perchennog yn mynnu siarad "yr iaith essential", chwedl Dafydd Iwan a minnau eisiau ymarfer fy Castillano heb i Gymry'r Gaiman fod yno i glustfeinio ar fy nghamgymeriadau.

Tref Ewropeaidd ei naws yw Bariloche. Mae popeth yno ar gyfer twristiaid ac roedd yn gyfle i gerdded o gwmpas, ymweld â'r eglwys, bwyta'n dda ac ymlacio.

Drannoeth yn blygeiniol ro'n i ar fws yn teithio i gyfeiriad Osorno yn Chile. Teithio trwy ardal y llynnoedd a thir gwyrdd, coediog. Ar ôl ychydig oriau, croesi'r ffin i Chile a "thir neb" i'w deimlo fel mynd y pellter o Drawsfynydd i Ddolgellau.

Un o drefi mwyaf de Chile yw Osorno. Ystafell yn y Grand Hotel oedd fy nghartref sipsi yno. Wynebai y Plaza, ac am hanner awr wedi un y prynhawn, roedd y lle'n llawn o bobl yn treulio'u hamser "siesta" yn sgwrsio o dan y coed ger y ffynnon.

Chwaraeai twr o blant gêm o "chess" ar lawr, a'r darnau yn fwy na nhw eu hunain. Ar ochr arall y Plaza saif yr Eglwys. Roedd arwydd yn y fynedfa'n dweud 'Distawrwydd. Cofiwch nad amgueddfa sydd yma.'

Mae llawer o adeiladau Osorno yn Almaenig o ran pensaernïaeth a'r eglwys yn fy atgoffa o eglwysi Dyffryn y Rhine. Gwelir enwau fel Westfalia ar rai strydoedd. Ymweliad â'r amgueddfa oedd nesaf. Dyma le yn orlawn o greiriau o bob math dan haul.

Yr ystafell arddangos crefftau Indiaid Mapuche dynnodd fy sylw fwyaf. Heblaw am hynny roedd tair gwraig oedrannus yn lled-orweddian ar soffa wrth y drws a haul y prynhawn yn amlwg wedi eu llethu. Roedden nhw'n mynnu fy narbwyllo eu bod hwythau hefyd yn rhan o'r creiriau.

Newid aelwyd a mynd ymlaen am Temuco fore trannoeth. Roedd cyrraedd yno'n dipyn o brofiad. Dinas anferth arall a theimlad o fynd i dre cowbois yn y Gorllewin Gwyllt. Y prif atyniad i mi oedd marchnad y ddinas a lenwai bob modfedd o stryd Pinto, o'r orsaf rheilffordd hyd orsaf y bwsiau.

Roedd y rhan fwyaf o'r stondinau'n llawn o ddillad, esgidiau, bagiau a chrefftau'r Indiaid Mapuche. Dyma gyfle i fargeinio. Prynais poncho yn rhad. Dau fachgen a'u gwalltiau yn blethi hirion i lawr eu cefnau oedd yn gofalu am y stondin. Sôn am ddwy lond ceg o ddannedd gwynion pan welson nhw'r papur ugain doler Gogledd America!

Roeddwn innau'n trysori fy nilledyn newydd ac yn gafael ynddo'n ddiogel o dan fy nghesail. Am hanner awr wedi wyth y noson honno i ffwrdd â fi ar drên am Santiago. Roedd gen i wely, ond treuliais oriau yn ystod y nos yn eistedd wrth fwrdd yn y bwyty yn cael cwmni teithwyr eraill o Galifornia.

**Gwin**

Roedd y gweinydd yn dipyn o glown. Chwarae teg iddo, nid gwaith hawdd oedd cael y gwin allan o'r botel ac i mewn i'r gwydr heb golli diferyn. Ro'n i'n amau mai rhyw Norman Wisdom o berfformiwr oedd hwn ac y byddai'r botel, y gwydr, y gwin a'r gweinydd yn glanio yn fy nghôl unrhyw funud wrth i'r trên rybedian ei ffordd tua gogledd Chile. Na, roedd hwn yn dipyn o feistr ar ei grefft a chollwyd ddim un dropyn.

Mae cysgu'n broblem i mi ar y gorau ac roedd sgrytian y cerbydau yn siwr o fy nghadw'n effro wrth i ni fynd heibio sawl pentref a thref. Gwelais yr haul yn gwawrio ac roedd golygfeydd hyfryd yn fy nisgwyl weddill y daith. Mae tirwedd Chileyn debyg i Gymru ... ond ar raddfa enfawr.

Dyma gyrraedd gorsaf Santiago am wyth y bore. Rhaid bod yn gryf o gorff ac ysbryd i oroesi'r profiad o fynd trwy'r cannoedd o bobl yn gwau trwy'i gilydd! Diolch i'r drefn am sedd gefn tacsi a chyfle i gael fy ngwynt ataf. Nod yr holl daith oedd cyrraedd Santiago ac felly roeddwn yn barod i gartrefu yno am dridiau o leiaf.

Dim ond ers chwarter olaf y 18fed ganrif mae'r ddinas enfawr hon wedi dod yn gartref i foneddigion Chile ac yn ddinas ryngwladol, a hynny ar draul pobl gyffredin y wlad. Mae tai moethus i'w gweld ar bob llaw a llawer o'r bensaernïaeth yn Ffrengig. Mae'r crandrwydd yn amlwg. Wrth gwrs, mae cartref 'El Presidente' yn siwr o fod, hyd yn oed, yn grandiach na'r gweddill. Adeiladwyd hwn yn y flwyddyn 1979 a bu llawer o holi ynglyn â'r holl wario ar y lle. Mae hanes Pinochet yn wybyddys i bawb a graffiti Santiago'r presennol yn cefnogi ac yn gwrthwynebu.

Er mor anferth y ddinas, mae'r canol yn gymharol fach ac ar ffurf triongl. I'r gogledd mae Rio Mapocho; i'r gorllewin Via Norte Sur ac i'r de Avenida del Libertador General Bernardo O'Higgins. Canolbwynt y triongl yw'r Plaza de Armas. Treuliais sawl awr yma'n gwylio'r byd yn mynd heibio ac yn cysgodi rhag haul tanbaid y dydd.

Roedd un ochr o'r Plaza yn llawn stondinau oedd yn gwerthu llawer o grefftau'r Indiaid Mapuche. Yno prynais dâp o Victor Jara yn siarad ac yn canu a phrynais lun o Che Guevara. Cerddais amgueddfeydd, eglwysi a phalas yr arlywydd. Ar ôl gwisgo fy sandalau yn dwll, bron, dyma gael taith wedi ei threfnu i roi tipyn o gefndir a hanes y lle gan rywun oedd yn gwybod be' 'dy be'.